# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 3 Chwefror 2015** |
| Amser: | **08.30 - 08.52** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: Preifat

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Paul Davies**<br>**Jane Hutt**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau**<br>**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

3.1 Busnes yr Wythnos Hon

Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 4 Mawrth 2015**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y gwaith craffu ar ôl deddfu o ran y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

3.4 Dadl Aelod Unigol: Dewis y Cynnig ar gyfer y Ddadl

Dewisodd y Pwyllgor Busnes y cynnig a ganlyn ar gyfer dadl:

**Dydd Mercher 11 Chwefror 2015**

**NNDM5683**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) diwrnod cofrestru pleidleiswyr Bite the Ballot ar 5 Chwefror ac yr wythnos genedlaethol o weithgareddau a gynhelir rhwng 2 a 8 Chwefror;

b) Yn nodi adroddiad y Comisiwn Etholiadol, 'The quality of the 2014 electoral registers in Great Britain', a ganfu nad oedd 49% o bobl ifanc rhwng 16 a 17 oed wedi cofrestru i bleidleisio.

c) adroddiad cynnydd y Comisiwn Etholiadol, 'Dadansoddiad o'r Arbrawf Cadarnhau Byw yng Nghymru a Lloegr', a ganfu bod y gyfradd baru i bobl rhwng 16 a 17 oed sydd wedi cofrestru i bleidleisio'n unigol wedi gostwng o 86% i 52%; a

d) llwyddiant menter ysgolion Swyddfa Etholiadol Gogledd Iwerddon a wnaeth arwain 57,000 o bobl ifanc (tua 50% o'r grŵp oedran) yn cael eu hychwanegu at y gofrestr.

2. Yn gresynu at y ffaith bod nifer y bobl sy'n pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad wedi bod yn gostwng ac yn cefnogi camau i annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn democratiaeth.

3. Yn galw am gamau i rymuso swyddogion cofrestru i wella prosesau rhannu data, cynyddu nifer y bobl sydd wedi'u cofrestru o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol - yn enwedig etholwyr ifanc a myfyrwyr - a sicrhau lefelau uwch o gyfranogiad ymhlith pobl ifanc.

Mae'r adroddiad 'The quality of the 2014 electoral registers in Great Britain' gan y Comisiwn Etholiadol ar gael yn: http://www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/pdf_file/0005/169889/Completeness-and-accuracy-of-the-2014-electoral-registers-in-Great-Britain.pdf (Saesneg yn unig)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r ddadl nesaf gan Aelod unigol gael ei chynnal ddydd Mercher 18 Mawrth, 2015.

## 4 Deddfwriaeth

4.1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 6) ar gyfer y Bil Dadreoleiddio

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 6) yn ymwneud â'r Bil Dadreoleiddio.

Dywedodd y Gweinidog Busnes y Llywodraeth wrth y Pwyllgor fod y Bil yn agosáu at ddiwedd ei daith drwy'r Senedd, a chan mai egluro amwysedd cydnabyddedig yn y ddeddfwriaeth bresennol yw diben y gwelliant, yn hytrach na gwneud darpariaeth newydd o sylwedd, cytunodd y Rheolwyr Busnes i nodi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ac na ddylid ei gyfeirio at un o bwyllgorau'r Cynulliad ar gyfer craffu arno. Bwriedir cynnal dadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r darpariaethau yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Chwefror 2015.

4.2 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar gyfer y Bil Troseddau Difrifol

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) yn ymwneud â'r Bil Troseddu Difrifol.

Dywedodd y Gweinidog Busnes y Llywodraeth wrth y Pwyllgor fod y Bil yn agosáu at ddiwedd ei daith drwy'r Senedd. Gan fod amser yn brin, cytunodd y Rheolwyr Busnes i nodi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ac na ddylid ei anfon at un o bwyllgorau'r Cynulliad ar gyfer ei graffu. Bwriedir cynnal dadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r ddarpariaeth yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Chwefror 2015.

4.3 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Cadarnhaodd y Rheolwyr Busnes eu penderfyniad mewn egwyddor a wnaed ar 11 Tachwedd i gyfeirio'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer ei ystyried yng Nghyfnod 1, a chytunwyd mai 3 Gorffennaf 2015 fyddai'r dyddiad i'r Pwyllgor adrodd ar y Bil yng Nghyfnod 1, a 16 Hydref 2015 fyddai'r dyddiad ar gyfer cwblhau trafodion y Pwyllgor yng Nghyfnod 2.

## 5 Y Rheolau Sefydlog

5.1 Caniatáu Newidiadau i Swyddogaethau'r Cynulliad

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan yr Ysgrifenyddiaeth ynghylch newidiadau i'r Rheolau Sefydlog fel y’u hargymhellwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch newidiadau i swyddogaethau'r Cynulliad.

Ystyriodd y Rheolwyr Busnes y gwahanol opsiynau a chytunwyd mewn egwyddor i ddiwygio Rheol Sefydlog 30 yn unol ag opsiwn C.